Roedd dau o beintwyr blaenaf Prydain, J.M.W. Turner a John Constable, hefyd yn gystadleuwyr mawr. Wedi'u geni o fewn blwyddyn i'w gilydd, defnyddiodd y ddau baentio tirluniau i adlewyrchu'r byd newidiol o'u cwmpas.

Fe wnaeth machlud haul fflamlyd Turner a golygfeydd godidog o'i deithiau a darluniau delfrydol Constable o leoedd annwyl o'i gartref danio brwdfrydedd mawr yn y cyhoedd ar y pryd. Cymharodd beirniaid eu harddulliau gwahanol iawn fel gwrthdaro 'tân a dŵr'. Gan nodi 250 mlynedd ers eu geni, mae'r rhaglen ddogfen newydd hon yn archwilio bywydau a gwaddol cyblethedig Turner a Constable ochr yn ochr â'r arddangosfa arloesol yn y Tate.

Two of Britain's greatest painters, J.M.W. Turner and John Constable were also the greatest of rivals. Born within a year of each other, both used landscape painting to reflect the changing world around them.

Turner's blazing sunsets and sublime scenes from his travels and Constable's idealised depictions of beloved places from home whipped the public of the time into a frenzy of enthusiasm. Critics compared their starkly different styles to a clash of 'fire and water'. Marking 250 years since their births, this unmissable new documentary explores Turner and Constable's intertwined lives and legacies alongside the groundbreaking Tate exhibition.

Mae hwn yn recordiad / This is a recording

Ionawr - Mehefin | January - June 2026



Royal Ballet and Opera Siegfried

15 AS LIVE

Mawrth / March 31 – 5.15
£18 (£17)

ROYAL
BALLET &
OPERA

Wedi'i fagu gan gorrach cynllwyngar ac yn anymwybodol o'i wreiddiau teuluol go iawn, mae dyn ifanc yn cychwyn ar daith epig. Cyn hir, mae tynged yn ei arwain at gledddyf maluriedig, draig frawychus a'r fodrwyd felltgedig y mae hi'n ei gwarchod, a Valkyrie sy'n cael ei gorfodi i gysgu dan gyfaredd...

Mae eiliadau o harddwch trosgynol a buddugoliaeth arwrol yn disgleirio yn nhrydedd bennod y Ring Cycle gan Wagner, ac mae ysbrydoliaeth Barrie Kosky yn dod â'r cyfan yn fyw yn dilyn ei gynyrchiadau ysblennydd *Das Rheingold* (2023) a *Die Walküre* (2025).

Raised by a scheming dwarf and unaware of his true family origins, a young man embarks on an epic journey. Soon, destiny brings him face-to-face with a shattered sword, a fearsome dragon and the cursed ring it guards, and a Valkyrie forced into enchanted slumber...

Moments of transcendent beauty and heroic triumph sparkle in the third chapter of Wagner's Ring cycle, brought to life under Barrie Kosky's inspired eye following his spectacular *Das Rheingold* (2023) and *Die Walküre* (2025).

Bydd y sioe ar 31 Mawrth yn cael ei ffrydio'n fyw /
The show on the 31 March will be streamed live

Hyd y perfformiad (tua): 330 munud
Running time (approx) : 330 minutes



Royal Ballet and Opera

The Magic Flute

PG AS LIVE



Ebrill / April 21 – 6.45, 26 – 2.00

£18 (£17)

Mae'r Dywysoges Pamina wedi cael ei chipio. Mae ei mam, y Queen of the Night, yn rhoi'r dasg o achub ei merch i'r Tywysog ifanc Tamino. Ond pan mae Tamino a'i bartner cyfeillgar, Papageno, yn dechrau ar eu hantur, maen nhw'n dysgu'n gyflym, wrth edrych am gariad, nad yw unrhyw beth fel y mae'n ymddangos mewn gwirionedd. Gyda fflwiwt hud yn eu tywys, maen nhw'n dod ar draws angenfilod, dihirod, a brawdoliaeth ddirlgel o ddynion - ond mae cymorth, mae'n debyg, yn dod pan ydych chi'n ei ddisgwyl leiaf.

Mae opera ffantastig Mozart yn disgleirio yng nghynhyrchiad hudolus David McVicar.

Princess Pamina has been captured. Her mother, the Queen of the Night, tasks the young Prince Tamino with her daughter's rescue. But when Tamino and his friendly sidekick, Papageno, embark on their adventure, they soon learn that when it comes to the quest for love, nothing is as it really seems. Guided by a magic flute, they encounter monsters, villains, and a mysterious brotherhood of men – but help, it turns out, comes when you least expect it.

Mozart's fantastical opera glitters in David McVicar's enchanting production.

Bydd y sioe ar 21 Ebrill yn cael ei ffrydio'n fyw, mae'r sioe ddilynol ar y 26 Ebrill yn recordiad / The show on the 21 April will be streamed live, the subsequent show which takes place on 26 April is a recording



Met Opera mewn cysylltiad a RBO / Met Opera in association with RBO

Eugene Onegin

12A AS LIVE



Mai / May 5 – 6.00

£18 (£17)

Yn dilyn ei début gyda'r cwmni yn 2024 yn *Madama Butterfly* gan Puccini, mae'r soprano Asmik Grigorian yn dychwelyd i'r Met fel Tatiana, yr arwres ifanc dros ei phen a'i chlustiau mewn cariad, yn yr addasiad operatig brwd hwn o Pushkin. Unwaith eto, mae'r bariton Igor Golovatenko yn cyflwyno ei bortread o'r Onegin bonheddig, sy'n sylweddoli'n rhy hwyr ei fod yn hoff ohoni. Mae cynhyrchiad atgofus y Met, dan gyfarwyddyd yr enillydd Gwobr Tony, Deborah Warner, "offers a beautifully detailed reading of... *Tchaikovsky's lyrical romance*" (The Telegraph).

Following her acclaimed 2024 company debut in Puccini's *Madama Butterfly*, soprano Asmik Grigorian returns to the Met as Tatiana, the lovestruck young heroine in this ardent operatic adaptation of Pushkin. Baritone Igor Golovatenko reprises his portrayal of the urbane Onegin, who realizes his affection for her all too late. The Met's evocative production, directed by Tony Award-winner Deborah Warner, "offers a beautifully detailed reading of... *Tchaikovsky's lyrical romance*" (The Telegraph).

Bydd y sioe ar 5 Mai yn cael ei ffrydio'n fyw / The show on the 5 May will be streamed live



Exhibition On Screen

Frida Kahlo

12A TBC

EOS EXHIBITION
ON SCREEN

Mai / May 19 – 7.00, 24 – 2.00

Mehefin / June 2 – 7.00, 6 – 2.00

£13 (£12)

Ffenomen yw Frida Kahlo. Gellir dadlau mai hi yw hoff artist benywaidd y byd - gyda phobl o bob oed yn gwirioni arni. Mae ffilm wobrweddig Exhibition on Screen - a ryddhawyd gyntaf yn ystod Covid i gynulleidfa gyfyngedig - yn dychwelyd mewn ymateb i'r galw, gydag ychwanegiad cyffrous newydd, sef arddangosfa drawsatlantig fawr gan Tate Britain ac MFA Houston 'Frida Kahlo: the Making of an Icon'. Mae'r ffilm nôl yn y sinemâu ym mis Mai 2026, mis cyn i arddangosfa Tate agor, gan ganiatáu i gynulleidfaoedd wyllo'r ffilm a gweld y sioe.

Pwy oedd Frida Kahlo? Mae pawb yn adnabod ei hwyneb ond pwy oedd y fenyw y tu ôl i'r lliwiau llachar, yr aeliau mawr a'r penwisgoedd blodeuog? Ewch ar daith trwy fywyd eicon go iawn, darganfyddwch ei chelf, a datgelwch stori wir ei bywyd gwrthryfelgar, angerddol a chythyrblys.

Frida Kahlo is a phenomenon. She is arguably the world's favourite female artist – beloved by young and old. Exhibition on Screen's award-winning film – first released during Covid to a restricted audience - is back by popular demand with an exciting new addition from the blockbuster transatlantic exhibition from Tate Britain and MFA Houston 'Frida Kahlo: the Making of an Icon'. Back in the cinemas in May 2026, one month before the Tate exhibition opens, allowing audiences to watch both the film and see the show.

Who was Frida Kahlo? Everyone knows her face but who was the woman behind the bright colours, the big brows and the floral crowns? Take a journey through the life of a true icon, discover her art, and uncover the true story of her rebellious, passionate and turbulent life.

Mae hwn yn recordiad / This is a recording



National Theatre Live

The Playboy of the Western World

12A AS LIVE

Mai / May 28 – 7.00

Mehefin / June 4 – 7.00, 13 – 3.30, 18 – 7.00

£16 (£15)

**National
Theatre
Live**

Mae Nicola Coughlan (*Bridgerton*) yn ymuno ag Éanna Hardwicke (*The Sixth Commandment*) a Siobhán McSweeney (*Derry Girls*) yn nrama gyfareddol John Millington Synge am ieuenctid a hunanddarganfyddiad.

Mae bywyd Pegeen Flaherty yn cael ei droi wyneb i waered pan mae dyn ifanc yn camu i mewn i'w thafarn ac yn honni ei fod wedi lladd ei dad. Ond yn hytrach na throi eu cefnau arno, mae'r gymuned yn ei groesawu fel arwr lleol ac mae'n dechrau ennill calonnau, hynny yw nes i ail ddyn gyrraedd yn annisgwyl ...

Wedi'i ffilmio'n fyw ar y llwyfan yn y National Theatre, Caitríona McLaughlin sy'n cyfarwyddo'r stori dywyll, ddoniol hon sy'n llawn cyfrinachau.

Nicola Coughlan (*Bridgerton*) joins Éanna Hardwicke (*The Sixth Commandment*) and Siobhán McSweeney (*Derry Girls*) in John Millington Synge's riveting play of youth and self-discovery.

Pegeen Flaherty's life is turned upside down when a young man walks into her pub claiming that he's killed his father. Instead of being shunned, the killer becomes a local hero and begins to win hearts, that is until a second man unexpectedly arrives on the scene...

Filmed live on stage at the National Theatre, Caitríona McLaughlin directs this darkly funny tale full to the brim with secrets.

Mae hwn yn recordiad o berfformiad byw / This is a recording of a live performance



National Theatre Live **Les Liaisons Dangereuses** 15 AS LIVE

Mehefin / June 25 – 7.00, 27 – 3.30, 30 – 7.00

£16 (£15)

National
Theatre
Live

Mae'r enillydd Gwobr BAFTA, Lesley Manville (*Phantom Thread*), yn ymuno ag Aidan Turner (*Rivals*, *Poldark*) mewn llwyfaniad newydd trawiadol o addasiad clodwiw Christopher Hampton o'r nofel glasurol, lle gall un camgymeriad, yn salonau disglair y cyfoethog iawn, olygu dinistr.

Mae'r Marquise de Merteuil yn feistr ar oroesi. Ochr yn ochr â'r Vicomte de Valmont cyfareddol, maen nhw'n troi hudo yn strategaeth ac yn cam-fanteisio ar chwant. Ond pan mae eu perthynas yn troi'n gystadleuaeth, mae'r frwydr rhyngddynt yn bygwth dinistrio pawb yn eu llwybr.

Wedi'i ffilmio'n fyw ar y llwyfan yn y National Theatre, mae Marianne Elliott (*Angels in America*) yn cyfarwyddo'r gêm gyffrous hon o gariad, celwyddau a rhyfel cymdeithasol.

BAFTA Award-winner Lesley Manville (*Phantom Thread*) joins Aidan Turner (*Rivals*, *Poldark*) in a striking new staging of Christopher Hampton's celebrated adaptation of the classic novel, where among the glittering salons of the super-rich, one misstep can mean ruin.

Marquise de Merteuil is a master in the art of survival. Alongside the magnetic Vicomte de Valmont, they turn seduction into strategy and weaponise desire. But when their alliance collapses into rivalry, the battle between them threatens to destroy everyone in their path.

Filmed live on stage at the National Theatre, Marianne Elliott (*Angels in America*) directs this thrilling game of love, lies, and social warfare.

Mae hwn yn recordiad o berfformiad byw / This is a recording of a live performance



H is for Hawk (12A)

Philippa Lowthorpe | UK | Singapore | USA | 2025 | 115'

Gweler tudalen 50 am ragor o wybodaeth
See page 50 for more information

Sinema Cinema

Bydd ffilmiau'n
DECHRAU ar yr
amser a hysbysebir.
Films START at
the advertised time.

Croeso i'n tymor gaeaf / gwanwyn
o sinema. O oreuon pryfoclyd indi i ffilmiau
poblogaidd blocbyster, mae ein rhaglen ffilm
wedi'i churadu'n ofalus ac yn addo i ysbrydoli
a diddanu.

Gall amserlenni sinema newid ar fyr rybudd.
Argymhellwn eich bod yn archebu eich
tocynnau ymlaen llaw pryd bynnag bo'n
bosibl – yna gallwn gysylltu â chi os bydd
unrhyw amgylchiadau annisgwyl yn codi.

**Mae pris yr holl docynnau isod yn cynnwys
TAW ac yn amodol ar ffi archebu o 10%
(sydd hefyd yn cynnwys TAW) lle bo'n
berthnasol (mae ffioedd archebu wedi'u
cyfyngu i uchafswm o £3 y cart).**

Ewch i'n gwefan am ddiwedddariadau ar
isdeotlau, disgrifiadu sain, tystystgrifiau,
amseroedd a gwybodaeth am
ffotosensitifrywd.

Welcome to our winter / spring season of
cinema. From thought-provoking indie gems
to captivating blockbusters, our carefully
curated film programme promises to inspire
and entertain.

Cinema schedules can be subject to change
at short notice. We recommend pre-booking
your tickets wherever possible; we can then
contact you in the event of any changes.

**All ticket prices below include VAT and are
subject to a 10% booking fee (which also
includes VAT) where applicable (booking
fees are limited to £3 maximum per cart).**

Visit our website for details of certificates,
audio description, relaxed and subtitled
screenings.

Prisiau'r sinema | Cinema prices:

£8.40 **Oedolion | Adults**

£7.70 **Gostyngiadau**

(Pobl Hyn 60+ / Pobl Anabl / Ceiswyr Gwaith / Myfyrwir Llawn Amser 15+)

Consessions

(Senior 60+ / Full Time Student 15+ / Disabled / Job seekers / Income support)

£5.90 **Ar gyfer plant oed 14 ac yn iau a Aelodau CFFTM llawn a Ticketsavers
Children aged 14 and under and TMFS Full Members and Ticketsavers**

ST Isdeitlau / Subtitles

R Ddangosiad Hamddenol / Relaxed Screening

Cyfle arall i weld Another chance to see

Anaconda 12A

Ionawr | January 9–7.15, 10, 11–4.00, 13–15–7.15

Song Sung Blue 12A TBC

Ionawr | January 9–7.00, 10, 11–6.45, 13, 14–7.00,
15–2.00, 7.00, 29–2.00

Wicked: For Good PG

Ionawr | January 10, 11–12.30,
17, 18–3.45, 24–3.15
Chwefror | February 1–1.30, 7–1.15 R,
8–1.15, 21, 22–3.30, 28–4.15
Mawrth | March 1–4.15

Avatar: Fire & Ash 12A TBC

Ionawr | January 10–3.15, 6.30, 11–6.30,
17, 24, 25–3.30, 31–12.45
Chwefror | February 7, 8–3.15, 28–6.45
Mawrth | March 1–6.45

Spongebob: Search for Squarepants PG

Ionawr | January 10, 11–12.45, 17, 18–1.00, 24–12.45,
25–1.00 R, 31–1.00
Chwefror | February 7, 8–12.45, 16–19–1.30, 28–1.00
Mawrth | March 1–1.00

Zootropolis 2 PG

Ionawr | January 10, 11–1.15, 17–1.45, 24, 25, 31–1.15
Chwefror | February 1–1.15, 7–1.00



Pecyn Parti Plant

£8.50* y plentyn (o leiaf 10 plentyn) Yn cynnwys
tocyn sinema, popgorn bach + carton o ddiod
yr un. Hefyd, defnydd o fan cyfarfod, gydag
addurniadau, ar gyfer cacen cyn/ar ôl y ffilm.

*Yn amodol ar ffioedd archebu, gweler tudalen 57
am fanylio.

Kids Party Package

£8.50* per child (minimum of 10 children) Includes
cinema ticket, small popcorn + carton of drink each.
Also use of a meeting space, with decorations, for a
cake before/after the film.

*Subject to booking fees, see page 57 for details.

Cysylltwch a'r Swyddfa Docynnau / Contact the box office:
boxoffice@mwldan.co.uk / 01239 621200



Eternity 15

David Freyne | USA | 2025 | 114'

Ionawr | January
9,10,13,15 – 7.30

Mewn bywyd ar ôl marwolaeth, lle mae gan eneidiau wythnos i benderfynu ble i dreulio tragwyddoldeb, mae Joan yn wynebu'r dewis amhosibl rhwng y dyn y treuliodd ei bywyd gydag ef a'i chariad cyntaf, a fu farw'n ifanc ac sydd wedi aros degawdau iddi hi gyrraedd. Gydag Elizabeth Olsen (*Wandavision*) a Miles Teller (*Whiplash*, *Top Gun: Maverick*).

In an afterlife where souls have one week to decide where to spend eternity, Joan is faced with the impossible choice between the man she spent her life with and her first love, who died young and has waited decades for her to arrive. Starring Elizabeth Olsen (*Wandavision*) and Miles Teller (*Whiplash*, *Top Gun: Maverick*).



Tanau'r Lloer 12A

Chris Forster | Cymru | 2025 87'

Ionawr | January 10, 11 – 4.15

Wrth i awdur deithio adref ar drên gyda'r nos, mae'n cael ei orfodi i wynebu atgofion am ddigwyddiadau a arweiniodd at roi ei fam mewn ysbyty meddwl ddegawdau ynghynt.

Mae'r ffilm Gymraeg ddu-a-gwyn hyfryd hon, gyda cherddoriaeth gan y cyfansoddwr enwog Gareth Glyn, sy'n cael ei pherfformio gan Gerddorfa Opera Genedlaethol Cymru, wedi'i hysbrydoli gan y clasur llenyddol '*Un Nos Ola Leuad*'. Dyma i chi gymysgedd unigryw o opera a sinema, sy'n archwilio'r meddwl creadigol cythryblus yn gelfydd gyda pherfformiadau cywraïn.

As a writer takes a train journey home at night, he is forced to confront the memory of events which led to his mother's institutionalisation decades before.

This gorgeous black-and-white Welsh language film with music by renowned composer Gareth Glyn is inspired by the literary classic '*Un Nos Ola Leuad*', performed by the Welsh National Opera Orchestra. A unique blend of opera and cinema, this is a rich and beautifully performed exploration of the troubled creative mind.

Ffilm Gymraeg yw hon, gydag isdeitlau Saesneg / This is a Welsh language film with English subtitles



The Other Way Around 12A

Jonás Trueba | Spain | France 2024 | 114'

Ionawr | January 11 – 6.15

Ar ôl 15 mlynedd gyda'i gilydd, mae Ale ac Alex wedi cael y syniad anarferol o drefnu parti er mwyn dathlu eu hymwahaniad - fel priodas ond o chwith. Er bod eu ffrindiau a'u teulu yn amheus, maen nhw i'w weld yn siŵr o'u penderfyniad. Neu a ydyn nhw? A hithau'n Ddewis Swyddogol Pythefnos Cyfarwyddwyr Gŵyl Ffilm Cannes, dyfarnwyd Label Europa Cinemas am y Ffilm Ewropeaidd Orau ym Mhythefnos Cyfarwyddwyr Gŵyl Ffilm Cannes 2024 i'r ddrama gomedi goeglyd, chwareus hon gan Jonás Trueba.

After 15 years together, Ale and Alex have come up with the crazy idea of throwing a party to celebrate their break-up - like a wedding but the other way around. While their friends and family are sceptical, they seem to be sure of their decision. Or are they really? Official Selection at Cannes Film Festival Directors' Fortnight, Jonás Trueba's wry, playful comedy drama was awarded the Europa Cinemas Label for Best European Film at Cannes Film Festival Directors' Fortnight 2024.



Marty Supreme 15

Josh Safdie | Finland | USA | 2025 | 150'

lonawr | January 16 – 6.45, 17 – 7.15, 18 – 6.30 **ST**, 20 – 6.45, 21, 22 – 2.00

Chwaraewr ping-pong sydd wedi troi'n bencampwr yw Marty Mauser, ond nid oes unrhyw un yn parchu breuddwyd y dyn ifanc. Mae'r ffilm yn dilyn ei ymgais i ennill mawredd a'i benderfyniad i brofi mai ef yw'r chwaraewr ping-pong gorau yn y byd, gan olrhain ei daith o chwarae am fetiau yn Manhattan i ennill 22 o deitlau mawr. Timothée Chalamet sy'n chwarae rhan Marty, ac mae'n rhoi perfformiad gwych fel dyn â meddwl gorfywiog, hyder diysgog, a thuedd i siarad yn gyflym. Wedi'i hysgrifennu a'i chyfarwyddo gan Josh Safdie (*Uncut Gems*)

Marty Mauser, a hustler-turned-champion ping-pong player, is a young man whose dream no one respects. The film follows his pursuit of greatness and determination to prove himself as the best ping-pong player in the world, tracing his journey from playing for bets in Manhattan to winning 22 major titles. Timothée Chalamet stars as Marty, delivering a triumphant performance as a man with a hyperactive mind, unshakable confidence, and a tendency to speak a mile a minute. Written and directed by Josh Safdie (*Uncut Gems*).



The Housemaid 15

Paul Feig | USA | 2025 | 131'

Ionawr | **January** 16–7.15,
17–7.45, 18–7.00, 20–2.00,
21–7.00 **ST**, 22–7.30

Gan geisio dianc rhag ei gorffennol, mae Millie (Sydney Sweeney) yn derbyn jobyn fel morwyn tŷ i'r pâr cyfoethog Nina (Amanda Seyfried) ac Andrew (Brandon Sklenar). Ond mae'r hyn sy'n dechrau fel ei jobyn delfrydol yn datblygu'n gyflym i fod yn rhywbeth llawer mwy peryglus; gêm secsi, hudolus yn llawn cyfrinachau, sgandal a phŵer. Byd gwydroëdig lle mae perffeithrwydd yn rhith, a does dim byd fel y mae'n ymddangos, dyma i chi ffilm gyffro hynod ddifyr sy'n seiliedig ar y nofel lwyddiannus gan Freida McFadden ac sydd wedi'i chyfarwyddo gan Paul Feig.

Trying to escape her past, Millie (Sydney Sweeney) accepts a job as a live-in housemaid for the wealthy Nina (Amanda Seyfried) and Andrew (Brandon Sklenar). But what begins as a dream job quickly unravels into something far more dangerous; a sexy, seductive game of secrets, scandal, and power. A twisted world where perfection is an illusion, and nothing is as it seems, this is a wildly entertaining thriller based on the best-selling novel by Freida McFadden and directed by Paul Feig.



28 Years Later: The Bone Temple 18 TBC

Nia DaCosta | UK | USA | 2026 | 109'

Ionawr | **January** 16–7.30, 17–12.45, 4.30, 7.30, 18–12.45, 3.30, 7.15,
20, 21–7.15, 22–7.15 **ST**, 23–7.00, 24–12.30, 4.00, 7.00,
25–4.00, 7.00, 27–7.15, 28–6.45, 29–7.15

Gan ehangu ar y byd a grëwyd gan Danny Boyle ac Alex Garland yn *28 Years Later*, ond gan droi'r byd hwnnw ar ei ben, mae Nia DaCosta yn cyfarwyddo'r parhad hwn o'r stori epig. Rydyn ni'n dod o hyd i Dr. Kelson (Ralph Fiennes) mewn perthynas newydd syfrdanol, gyda chanlyniadau a allai newid y byd sy'n gyfarwydd iddyn nhw. Yn y cyfamser, mae Spike yn cwrdd â Jimmy Crystal (Jack O'Connell) ac mae'r sefyllfa'n troi'n hunllef na all ddianc rhagddi. Nid y rhai heintiedig yw'r bygythiad mwyaf i orosiad erbyn hyn, gall diffyg dyngarwch y goroeswyr fod yn fwy rhyfedd ac yn fwy brawychus.

Expanding upon the world created by Danny Boyle and Alex Garland in *28 Years Later*, but turning that world on its head, Nia DaCosta directs this continuation of the epic story. We find Dr. Kelson (Ralph Fiennes) in a shocking new relationship, with consequences that could change the world as they know it. Meanwhile Spike's encounter with Jimmy Crystal (Jack O'Connell) becomes a nightmare he can't escape. The infected are no longer the greatest threat to survival, the inhumanity of the survivors can be stranger and more terrifying.



Ella McCay 15

James L. Brooks | USA | 2025
| 115'

Ionawr | January 23 – 7.30,
24 – 6.45, 27 – 7.30 **ST**,
29 – 7.30

Stori am y bobl rydych chi'n eu caru, a sut i'w goroesi. Mae gwleidydd ifanc delfrydol yn jyglo materion teuluol a bywyd gwaith heriol wrth iddi baratoi i gamu i swydd ei mentor, llywodraethwr hirdymor y dalaiath. Mae'r ffilm wedi'i hysgrifennu a'i chyfarwyddo gan yr enillydd gwobrau Oscar ac Emmy, James L. Brooks, ac yn cynnwys cast o sêr sy'n cynnwys: Emma Mackey, Jamie Lee Curtis, Ayo Edebiri a Woody Harrelson.

A story about the people you love, and how to survive them. An idealistic young politician juggles familial issues and a challenging work life while preparing to take over the job of her mentor, the state's longtime incumbent governor. Written and directed by Oscar and Emmy Award winning James L. Brooks and featuring an all-star cast that includes: Emma Mackey, Jamie Lee Curtis, Ayo Edebiri and Woody Harrelson.



Five Nights at Freddy's 2 15

Emma Tammi | USA | 2025 | 104'

Ionawr | January 23, 24 – 7.45,
25 – 7.45 **ST**

Mae blwyddyn wedi mynd heibio ers yr hunllef oruwchnaturiol yn Freddy Fazbear's Pizza. Mae'r straeon am yr hyn a ddigwyddodd yno wedi'u troi'n chwedl leol, gan ysbrydoli Fazfest cyntaf erioed y dref. Mae'r cyn-warchodwr diogelwch Mike a'r swyddog heddlu Vanessa wedi cuddio'r gwir rhag Abby, chwaer 11 oed Mike, ynghylch tynged ei ffrindiau animatronig. Ond pan mae Abby yn sleifio allan i ailgysylltu â Freddy, Bonnie, Chica, a Foxy, caiff cyfres ddychrynlyd o ddigwyddiadau eu sbarduno, gan ddatgelu cyfrinachau tywyll am wir darddiad Freddy, a rhyddhau hen arswyd a guddiwyd ers degawdau.

One year has passed since the supernatural nightmare at Freddy Fazbear's Pizza. The stories about what transpired there have been twisted into a local legend, inspiring the town's first ever Fazfest. Former security guard Mike and police officer Vanessa have kept the truth from Mike's 11-year-old sister, Abby, concerning the fate of her animatronic friends. But when Abby sneaks out to reconnect with Freddy, Bonnie, Chica, and Foxy, it will set into motion a terrifying series of events, revealing dark secrets about the true origin of Freddy's, and unleashing a long-forgotten horror hidden away for decades.



Little Trouble Girls 15



Urska Djukic | Slovenia | Italy | Croatia | Serbia | 2025 | 90'

Ionawr | January 25 – 6.30

Mae Lucia, merch fewnblwyd 16 oed, yn ymuno â chôr merched ei hysgol Gatholig, ac yn gwneud ffrindiau ag Ana-Maria, myfyrwraig boblogaidd a chwareus yn ei thrydedd flwyddyn. Mae trip côr i leiandy gwledig yn cymhlethu deinameg y côr, wrth i rywioldeb egino a chael ei gyffroi gan yr adeiladwyr hanner noeth sy'n gweithio yno, mae cyfeillgarwch yn cael ei brofi a'r rheini sy'n arwain yn ymddwyn â bwriadau amheus.

Introverted 16-year-old Lucia joins her Catholic school's all-girls choir, where she befriends Ana-Maria, a popular and flirty third-year student. A choir trip to a countryside convent complicates the choir dynamics, as budding sexualities are stirred by the semi-clothed builders working there, friendships are tested and those in charge behave with dubious intent.



Christy 15

David Michôd | USA | 2025 | 135'

Ionawr | January 27, 28 – 7.00, 29 – 7.00 **ST**
Chwefror | February 4 – 7.30

Ni ddychmygodd Christy Martin (Sydney Sweeney) fywyd y tu hwnt i'w gwreiddiau mewn tref fechan yng Ngorllewin Virginia, nes iddi ddarganfod ei dawn am ddyrnu pobl. Wedi'i thanio gan ddynwch, penderfyniad, ac awydd diysgog i ennill, mae hi'n camu i'r sgwâr boccio dan arweiniad ei hyfforddwr a'i rheolwr, Jim (Ben Foster) sydd hefyd yn ŵr iddi. Ond tra bod Christy yn dangos personoliaeth danbaid yn y cylch, mae ei brwydrau anoddaf yn datblygu y tu allan iddo. Yn seiliedig ar ddigwyddiadau gwir nodedig, mae stori Christy Martin yn un o wytnwch, dewrder, a'r frwydr i adennill bywyd.

Christy Martin (Sydney Sweeney) never imagined life beyond her small-town roots in West Virginia, until she discovered a knack for punching people. Fuelled by grit, raw determination, and an unshakable desire to win, she charges into the world of boxing under the guidance of her trainer and manager-turned-husband, Jim (Ben Foster). But while Christy flaunts a fiery persona in the ring, her toughest battles unfold outside it. Based on remarkable true events, Christy Martin's story is one of resilience, courage, and the fight to reclaim one's life.



Hamnet 12A

Chloé Zhao | UK | USA | 2025 | 126'

Ionawr | January 30, 31 – 7.00
Chwefror | February 1, 3, 4 – 7.00, 5 – 7.00 **ST**

Mae'r tiwtor Lladin tlawd William Shakespeare (Paul Mescal) yn cwrdd ag Agnes (Jessie Buckley) benrhydd, ac mae'r ddau, wedi'u swyno gan ei gilydd, yn dechrau perthynas sy'n arwain at briodas a thri o blant. Eto wrth i Will ddilyn gyrfa theatraidd eginol yn Llundain, mae Agnes yn ymdopi â'r byd domestig ar ei phen ei hun. Pan mae trychineb yn digwydd, mae undod y pâr a fu unwaith yn ddiysgog yn cael ei roi dan bwysau, ond mae eu profiad cyffredin yn gosod y llwyfan ar gyfer creu campwaith oesol Shakespeare, Hamlet. Stori wedi'i hadrodd yn sensitif am gymhlethdodau cariad a phŵer celf a chreadigrwydd i iachau.

Impoverished Latin tutor William Shakespeare (Paul Mescal) meets free-spirited Agnes (Jessie Buckley), and the pair, captivated by one another, strike up an affair that leads to marriage and three children. Yet as Will pursues a budding theatre career in London, Agnes anchors the domestic sphere alone. When tragedy strikes, the couple's once-unshakable bond is tested, but their shared experience sets the stage for the creation of Shakespeare's timeless masterpiece, Hamlet. A sensitively observed tale about the complexities of love and the healing power of art and creativity.



Giant 15

Rowan Athale | USA | UK | 2025 | 110'

Ionawr | January 30 – 7.30, 31 – 6.45

Chwefror | February 3 – 7.30 ST

Ffilm sy'n seiliedig ar stori ryfeddol bywyd go iawn y pencampwr bocsi Prydeinig-Yemenaid enwog, Prince Naseem "Naz" Hamed. Mae'n olrhain ei stori ysbrydoledig carpiâu i gyfoeth, o ddechreuadau llwm yn Sheffield i ddod yn bencampwr byd ac eicon chwaraeon byd-eang y 90au. Mae'r ffilm yn archwilio'r berthynas annhebygol a thyner rhwng Naz a'i hyfforddwr bocsi Gwyddelig Brendan Ingle, a'r rôl allweddol a chwaraeodd Ingle ar ei lwybr i lwyddiant. Amir El-Masry (The Night Manager, The Crown, SAS: Rogue Heroes) sy'n chwarae rhan Hamed gyda Pierce Brosnan fel Brendan Ingle.

Based on the remarkable real-life story of legendary British-Yemeni boxing champion Prince Naseem "Naz" Hamed. Charting his inspiring rags-to-riches tale, from humble beginnings in Sheffield to becoming a world champion and global sporting icon of the 90s. The film explores the unlikely and tender relationship between Naz and his Irish boxing trainer Brendan Ingle, and the instrumental role that Ingle played on his road to success. Hamed is played by Amir El-Masry (The Night Manager, The Crown, SAS: Rogue Heroes) with Pierce Brosnan as Brendan Ingle.



Rental Family 12A

Hikari | Japan | USA | 2025 | 110"

Ionawr | January 30 – 7.45, 31 – 7.30

Chwefror | February 1 – 7.45 ST, 3 – 5 – 7.45

Yn Tokyo, mae actor Americanaidd (Brendan Fraser) yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i bwrpas, nes iddo gael jobyn anarferol yn gweithio i asiantaeth 'llogi teulu' Japaneiaidd, yn chwarae rolau dros dro i ddieithriaid. Wrth iddo ymgolli ym mydoedd ei gleientiaid, mae'n dechrau ffurfio cysylltiadau dilys sy'n pylu'r llinellau rhwng perfformiad a realiti. Gan wynebu cymhlethdodau moesol ei waith, mae'n ailddarganfod pwrpas, ymdeimlad o berthyn, a harddwch tawel cysylltiad dynol.

In Tokyo, an American actor (Brendan Fraser) struggles to find purpose, until he lands an unusual gig working for a Japanese 'rental family' agency, playing stand-in roles for strangers. As he immerses himself in his clients' worlds, he begins to form genuine bonds that blur the lines between performance and reality. Confronting the moral complexities of his work, he rediscovers purpose, belonging, and the quiet beauty of human connection.



Palestine 36 12A

Annemarie Jacir | France | Occupied Palestinian Territory | Qatar | Saudi Arabia | UK | 2025 | 120'

Ionawr | January 31 – 4.00

Chwefror | February 1 – 4.00, 7, 8 – 4.45, 12 – 2.00, 28 – 4.00
Mawrth | March 1 – 4.00

1936. Wrth i bentrefi ar draws Palesteina godi yn erbyn rheolaeth drefedigaethol Prydain, mae Yusuf yn symud rhwng ei gartref gwledig ac egni anesmwyth Jerwsalem, gan hiraethu am ddyfodol y tu hwnt i'r aflonyddwch cynyddol. Ond nid oes modd oedi hanes. Gyda niferuodd cynyddol o fewnfudwyr Iddewig yn dianc rhag gwrth-Semitaeth yn Ewrop, a phoblogaeth Palesteina yn uno yn y gwrthryfel mwyaf a hiraf yn erbyn goruchafiaeth Prydain dros 30 mlynedd, mae pob ochr yn troelli tuag at wrthdrawiad anochel. Gyda Jeremy Irons.

1936. As villages across Mandatory Palestine rise against British colonial rule, Yusuf drifts between his rural home and the restless energy of Jerusalem, longing for a future beyond the growing unrest. But history is relentless. With rising numbers of Jewish immigrants escaping antisemitism in Europe, and the Palestinian population uniting in the largest and longest uprising against Britain's 30-year dominion, all sides spiral towards inevitable collision. Starring Jeremy Irons.



The Thing with Feathers 15

Dylan Southern | UK | 2025 | 104'

Ionawr | January 31 – 5.00

Chwefror | February 1 – 5.00, 5 – 2.00

Yn dilyn marwolaeth ei wraig, mae tad ifanc yn dechrau colli gafael ar realiti ac mae presenoldeb rhyfedd yn dechrau ei stelcio o gorneli cysgodol y fflat y mae'n ei rannu gyda'i ddau fab ifanc. Mae brân debyg i ddyn, sydd i bob golwg wedi dod yn fyw o waith y tad fel darlunydd, ar fin dod yn rhan real iawn o'u bywydau, gan eu harwain yn y pen draw tuag at y ffurf newydd y mae'n rhaid i'w teulu ei dderbyn.

Gyda Benedict Cumberbatch, mae'r ffilm yn addasiad o lyfr clodwiw Max Porter, *Grief Is the Thing with Feathers*.

Following the death of his wife, a young father's hold on reality crumbles and a strange presence begins to stalk him from the shadowy recesses of the apartment he shares with his two young sons. A man-like crow, seemingly brought to life from the father's work as an illustrator, is about to become a very real part of their lives, ultimately guiding them towards the new shape their family must take.

Starring Benedict Cumberbatch, the film is an adaptation of Max Porter's acclaimed book *Grief Is the Thing with Feathers*.

Cymdeithas Ffilm Theatr Mwldan yn cyflwyno /
Theatr Mwldan Film Society present -

Gŵyl Ffilm Tir a Rhyddid / Land and Freedom Film Festival



Mae Penwythnos Gŵyl gyntaf CFFthM yn archwilio'r themâu 'Tir a Rhyddid'. Mae pŵer sinema i'n cludo ni ar draws y byd ac i ddod â straeon atom o bell yn dyst i'r lle sydd gan adrodd straeon yn ein bywydau.

Mae'r ffilmiau a ddewiswyd yn amrywio o Mesopotamia i Kenya; amser dwfn o safbwynt un goeden unig; gwrthdaro dros y tir yr ydym yn sefyll arno; ac antholeg o ffilmiau byrion animeiddio rhyngwladol.

Byddwn yn croesawu gwesteion arbennig ar gyfer sesiwn holi ac ateb ar ôl y dangosiad yn ogystal â chynnal trafodaethau ar ôl y ffilm i gynulleidfaoedd.

Gobeithiwn y bydd y ffilmiau'n ysgogi ac yn procio syniadau o sut olwg fyddai ar 'dir a rhyddid'.

The inaugural TMFS Festival Weekend explores the themes of 'Land and Freedom'. The power of cinema to transport us across the globe and to bring us stories from afar is testament to the place storytelling has in our lives.

The selected films range from Mesopotamia to Kenya; deep time from the perspective of a solitary tree; conflict over the very ground we stand on; and an anthology of international animation shorts.

Special guests will appear for post screening Q&As as well as post film discussions for audiences.

We hope the films stimulate and provoke visions of what 'land and freedom' might look like.

Mike Marshall, Chair

Cymdeithas Ffilm Theatr Mwldan / Theatr Mwldan Film Society



Silent Friend 15

Ildikó Enyedi | Germany | Hungary | France | China | 2025 | 147'

Chwefror | February 6 – 6.30

Yng nghanol gardd fotaneg mewn tref brifysgol ganoloesol yn yr Almaen saif coeden ginkgo fawreddog. Dros ganrif, mae'r tyst tawel hwn wedi arsylwi ar rythmau distaw trawsnewidiad ar draws bywydau tri o bobl. Wedi'u gosod yn 1908, 1972 a 2020, yng ngardd fotaneg tref brifysgol ganoloesol yn yr Almaen, mae triawd o straeon yn datgelu sut mae teithiau'r cymeriadau'n cael eu llunio gan y fflora o'u cwmpas. Mae'r goeden ginkgo hynafol yn ein dwyn yn agosach at yr hyn y mae'n ei olygu i fod yn ddynol – ac at yr hiraeth sydd gennym i berthyn.

In the heart of a botanical garden in a medieval university town in Germany stands a majestic ginkgo tree. This silent witness has observed over a century the quiet rhythms of transformation across three human lives. Unfolding in 1908, 1972 and 2020, in the botanical garden of a medieval German university town, a trio of tales reveal how the characters' journeys are shaped by the flora surrounding them. The ancient ginkgo tree brings us closer to what it means to be human — to our longing to belong.



Naharina 12A

Ferran Domènech | Spain | Syria | 2024 | 52'

Chwefror | February 7 – 4.00

Ffilm ddogfen yw *Naharina* am y gwrthwynebiad cymunedol yng Nghwrddistan Syria lle mae'r cyfarwyddwr Ferran Domènech yn archwilio etifeddiaeth pobloedd Mesopotamia— Cwrdiaid, Arabiaid, Armeniaid ac eraill sy'n parhau i adeiladu comiwnau, cydweithfeydd, tai menywod a modelau diogelwch amgen. Galwyd y bobloedd hynny'n Naharina gan yr Eifftiaid hynafol, sy'n golygu pobl yr afon. Nawr maen nhw'n wynebu gweld afon hollbwysig y rhanbarth yn sychu oherwydd cronfeydd dŵr Twrci.

Naharina is a documentary on the communal resistance in Syrian Kurdistan where director Ferran Domènech explores the legacy of Mesopotamia's peoples— Kurds, Arabs, Armenians and others who continue to build communes, cooperatives, women houses and alternative security models. Those peoples were called Naharina by the ancient Egyptians, meaning the people of the river. Now they face the drying out of the region's lifeblood river because of Turkish dams.



Between The Rains 18

Andrew H. Brown | Moses Thurania | USA | Kenya | 2023 | 82'

Chwefror | February 7 – 6.30

Wedi'i ffilmio dros bedair blynedd yn olynol yn ystod cyfnod lle gwelwyd y glawiad blynyddol iselaf erioed yn Kenya, mae *Between the Rains* yn gydweithrediad â chymuned Turkana-Ngaremarā sy'n ychwanegu llais traddodiadol i'r sgwrs fyd-eang am newid hinsawdd trwy lens difodiant diwylliannol. Mae'n stori dod i oed am Kolei, bugail ifanc y mae ei enw'n cyfieithu i "byw ymhlith y geifr."

Filmed over four consecutive years during record low annual precipitation in Kenya, *Between the Rains* is a feature collaboration with the Turkana-Ngaremarā community that offers a traditional voice to the global conversation about climate change through the lens of cultural extinction. It is a coming-of-age story of Kolei, a shepherd boy whose name translates to "living amongst the goats."

Rhybudd Cynnwys: Mae'r ffilm hon yn cynnwys golygfeydd o aberthu a marwolaeth anifeiliaid. Cyngorior disgrisiwn y gwylwr.

Trigger Warning: This film contains scenes of animal sacrifice and death. Viewer discretion is advised.



Our Land 12A

Orban Wallace | UK | 2025
| 89'

Chwefror | February 8 – 3.00

Mae *Our Land* yn ffilm ddogfen feiddgar ac amserol sy'n dilyn y mudiad mynediad cynyddol. Mae'n cipio'r tensiwn rhwng ymgyrchwyr cyhoeddus sy'n ymladd dros fynediad gwell at natur a thirfeddianwyr. Gan gyfuno cyd-destun hanesyddol â gweithredu cyfoes, mae'r ffilm yn gofyn y cwestiwn brys: pwy sydd â'r hawl i grwydro mewn gwirionedd? "Mae *Our Land* yn ymwneud â dechrau sgwrs - croesi rhaniadau er mwyn archwilio ein hymdeimlad cyffredin o berthyn ac aildychmygu ein perthynas yn y dyfodol â thir a natur y DU", meddai'r cyfarwyddwr Orban Wallace.

Our Land is a bold and timely documentary that follows the growing access movement. It captures the tension between public campaigners fighting for greater access to nature and landowners. Blending historical context with present-day action, the film asks the urgent question: who truly has the right to roam? "Our Land is about starting a conversation — crossing divides to explore our shared sense of belonging and to reimagine our future relationship with the land and nature of the UK", said director Orban Wallace.



Animate Projects: All That is Solid PG

Osbert Parker | Laurie Hill | Dominica Harrison | Nicolas Piret | Hantao Li | Max Hattler | Sasha Svirsky | Meghana Bisineer | Case Jernigan | Aliyah Harfoot | Irina Rubina | Emily Sasmor | Liv Dugdale, | Chaerin Im | James Duesing | Anna Dudko | UK | Belgium | Hong Kong | Germany | USA | South Korea | Austria | 2025 | 90'

Chwefror | February 8 – 6.30

Mae *All That Is Solid* yn dathlu ac yn dwysáu disgwyliadau animeiddio, gan ddod â phymtheg o ffilmiau byrion rhyngwladol ynghyd sy'n defnyddio dulliau fel lluniadu â llaw ar bapur, risograff, stop-symudiad a 3D. Mae'r themâu'n amrywio o straeon personol agos atoch i faterion byd-eang, gan gynnwys goresgyniad Wcráin a phandemig COVID-19, myfyrio ar gartref, cysylltiad a natur. Yn dilyn y dangosiad, cynhelir sesiwn holi ac ateb fyw gyda'r cyfarwyddwr o Gymru, Aliyah Harfoot, yn siarad am ei ffilm *Liminal Roots*. Mae hi'n cyfuno technegau stop-symudiad, lluniadu â llaw a thoriadau papur gyda greddf a natur ddigymell.

All That Is Solid celebrates and confounds expectations of animation, bringing together fifteen international short films that use methods such as hand-drawn on paper, risograph, stop motion and 3D. Themes range from intimate personal stories to global issues, including the invasion of Ukraine and the COVID-19 pandemic, reflecting on home, connection and nature. The screening is followed by a live Q&A with Welsh director Aliyah Harfoot, talking about her film *Liminal Roots*. She combines stop motion, hand-drawn and paper cut-out techniques with intuition and spontaneity.

Rhybudd cynnwys: Mae rhai o'r ffilmiau'n ymdrin â materion a allai fod yn sensitif neu beri gofid i rai gwylwyr ac efallai na fyddant yn addas i blant.

Content warning: Some of the films deal with issues that may be sensitive or distressing to some viewers and may not be suitable for children.



Mercy 12A

Timur Bekmambetov | USA | 2026 | 100'

Chwefror | February 6 – 7.30,
7, 8 – 7.45, 10 – 7.30 ST,
11, 12 – 7.30

Ffilm wedi'i gosod yn y dyfodol agos pan mae cynnydd yn y troseddau sy'n derbyn y gosb eithaf. Mae Mercy yn dilyn ditectif (Chris Pratt) wrth iddo sefyll ei brawf wedi'i gyhuddo o lofruddio ei wraig. Mae ganddo 90 munud i brofi ei ddiwogrwydd i Uwch Farnwr Deallusrwydd Artiffisial (A.I.) (Rebecca Ferguson) cyn iddo benderfynu ar ei dynged.

Set in the near future when capital crime has increased, Mercy follows a detective (Chris Pratt) as he stands on trial accused of murdering his wife. He has 90 minutes to prove his innocence to an advanced A.I. Judge (Rebecca Ferguson) he once championed, before it determines his fate.



The History of Sound 15

Oliver Hermanus | USA | UK | Sweden | Italy | 2025 | 128'

Chwefror | February 6 – 7.00,
7, 8 – 7.30, 10 – 6.45,
11 – 6.45 ST, 12 – 6.45

Ym 1917, mae Lionel, myfyriwr cerddoriaeth ifanc, talentog, yn cwrrd â David yng Ngholeg Cerdd Boston, lle maen nhw'n uno dros gariad dwfn at gerddoriaeth werin. Flynyddoedd yn ddiweddarach, mae Lionel yn derbyn llythyr gan David, sy'n arwain at daith ddigymell trwy gefn gwlad Maine i gasglu caneuon traddodiadol. Bydd yr aduniad annisgwyl hwn, y garwriaeth sy'n dilyn, a'r gerddoriaeth maen nhw'n ei chasglu a'i chadw, yn llunio hynt bywyd Lionel ymhell y tu hwnt i'r hyn y mae'n ymwybodol ohono.

In 1917, Lionel, a young, talented music student meets David at the Boston Conservatory, where they bond over a deep love of folk music. Years later, Lionel receives a letter from David, leading to an impromptu journey through the backwoods of Maine to collect traditional songs. This unexpected reunion, ensuing love affair, and the music they collect and preserve, will shape the course of Lionel's life far beyond his own awareness.



Kangaroo PGTC

Kate Woods | Australia | 2025 | tbc'

Chwefror | February 13 – 7.30,
14 – 1.30, 16 – 19 – 4.15,
21, 22 – 12.45, 28 – 1.15
Mawrth | March 1 – 1.15

Mae *Kangaroo* yn gomedi deuluol hoffus am gyn-bersonoliaeth deledu, Chris Masterman, sy'n ymgartrefu mewn tref yn yr Outback y tu allan i Alice Springs. Yno, mae'n ymuno â Charlie, merch frodorol 12 oed. Mae'r ddau yn ffurfio cyfeillgarwch annisgwyl ac yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn achub ac adsefydlu cangarwod bach amddifad yn y gymuned anghysbell ond godidog yn yr Outback - ymdrech sy'n newid bywydau'r ddau ohonynt. Mae *Kangaroo* wedi'i ysbrydoli gan fywyd Chris 'Brolga' Barns, sylfaenydd The Kangaroo Sanctuary, Alice Springs.

Kangaroo is a heart-warming family comedy about ex TV personality, Chris Masterman, who becomes stranded in an Outback town outside Alice Springs. There, he teams up with 12-year-old Indigenous girl Charlie. The pair form an unlikely friendship and work together to rescue and rehabilitate orphaned joeys in the remote but stunning Outback community - an endeavour that proves to be life-changing for them both. *Kangaroo* is inspired by the life of Chris 'Brolga' Barns, founder of The Kangaroo Sanctuary, Alice Springs.



Wuthering Heights

15 TBC

Emerald Fennell | USA | UK | 2025 | tbc'


Chwefror | February 13 – 6.45, 14 – 1.00, 4.15, 7.30, 15 – 1.00, 4.00, 6.45, 16 – 19 – 1.00, 4.00, 7.00, 20 – 1.00, 4.30 **ST**, 7.00, 21, 22 – 12.30, 4.00, 6.30, 24, 25 – 7.15, 26 – 2.00, 7.15, 27 – 7.00, 28 – 7.30
March 1 – 7.30, 3 – 7.00, 4, 5 – 6.45, 7 – 7.15, 12 – 2.00, 29, 30 – 7.00
April 1, 2 – 7.00

Mae'r cyfarwyddwr Emerald Fennell (*Saltburn, A Promising Young Woman*) yn rhoi ei stamp eiconig ar yr addasiad newydd sbon hwn o nofel Emily Brontë, y bu disgwyl brwd amdano.

Wedi'i osod ar rostiroedd gwyllt Gorllewin Swydd Efrog, mae stori *Wuthering Heights* yn dilyn dau deulu bonheddig, y teulu Earnshaw a'r teulu Linton. Wrth wraidd y stori mae'r berthynas ddwys a dinistriol rhwng Heathcliff, mab maeth y teulu Earnshaw, a Catherine Earnshaw. Wedi'i ddylanwadu gan Ramantiaeth a ffuglen Gothig, mae'n glasurol ym myd llenyddiaeth Saesneg.

Director Emerald Fennell (*Saltburn, A Promising Young Woman*) puts her iconic spin on this brand new, highly anticipated adaptation of Emily Bronte's novel.

Set on the wild, West Yorkshire moors, the story of *Wuthering Heights* follows two landed gentry families, the Earnshaws and the Lintons. At its heart is the intense and destructive relationship between the Earnshaws' foster son, Heathcliff, and Catherine Earnshaw. Influenced by Romanticism and Gothic fiction, it stands as a classic of English literature.



Goat PG TBC

Tyree Dillihay | Adam Rosette
| USA | Brazil | Japan |
Singapore | 2026 | tbc'

Chwefror | February 13 – 7.15,
14 – 12.45, 4.30, 7.15,
15 – 19 – 1.15, 4.30, 7.15,
20 – 1.30, 4.15, 8.00,
21, 22 – 1.00, 3.45, 7.30,
24 – 7.30 ST,
25, 26 – 7.30, 28 – 1.30
Mawrth | March 1 – 1.30 R,
7 – 12.45, 14 – 2.15, 21 – 5.00,
22 – 3.30

Mae gafr fach o'r enw Will yn cael cyfle unwaith mewn oes i ymuno â'r chwaraewyr proffesiynol a chwarae pêl-roar, camp ddwys, gorfforol sy'n cael ei dominyddu gan yr anifeiliaid cyflymaf a mwyaf ffyrnig yn y byd. A'i gyd-chwaraewyr yn gwneud sbort am ei ben mae Will yn benderfynol o drawsnewid y gamp a phrofi bod y rhai lleiaf yn gallu llwyddo!

A small goat named Will gets a once-in-a-lifetime shot to join the pros and play roarball, a high-intensity, full-contact sport that's dominated by the fastest, fiercest animals in the world. Ridiculed by his teammates, Will becomes determined to revolutionize the sport and prove that "small can ball!"




H is for Hawk 12A

Philippa Lowthorpe | UK | Singapore | USA | 2025 | 115'

Chwefror | February 14 – 7.45, 15 – 7.30, 16 – 7.30 ST,
17 – 19 – 7.30

Mae *H is for Hawk* yn dilyn Helen (Claire Foy), sydd, ar ôl marwolaeth sydyn ei thad (Brendan Gleeson), yn ymgolli mewn atgofion am eu hamser yn gwyllo adar ac yn archwilio'r byd naturiol gyda'i gilydd. Mae hi'n troi at gelfyddyd hynafol hebogyddiaeth ac yn hyfforddi gwalch gwyllt o'r enw Mabel er mwyn llywio trwy ei cholled fawr. Ond wrth iddi ddysgu Mabel i hela a hedfan yn rhydd, mae Helen yn sylweddoli cymaint y mae hi wedi esgeuluso ei hemosiynau a'i bywyd ei hun. Mae'r hyn sy'n dechrau fel gweithred o ddygnwch yn troi'n daith bersonol o wytnwch ac iachâd.

H is for Hawk follows Helen (Claire Foy), who, after the sudden death of her father (Brendan Gleeson), loses herself in the memories of their time birding and exploring the natural world together and turns the ancient art of falconry and trains a wild goshawk named Mabel to navigate her profound loss. But as she teaches Mabel to hunt and fly free, Helen discovers how deeply she has neglected her own emotions and life. What begins as an act of endurance transforms into an intimate journey of resilience and healing.



Put Your Soul On Your Hand and Walk



12A

Sepideh Farsi | France
| Occupied Palestinian
Territory | Iran | 2025 | 113'

Chwefror | February 22 – 6.45

Mae *Put Your Soul on Your Hand and Walk* yn cynnig persbectif agos-atoch, uniongyrchol, o fywyd yn Gaza, wedi'i adrodd trwy gyfres o alwadau fideo rhwng y gwneuthurwr ffilmiau Sepideh Farsi a'r ffotownewyddiadurwraig ifanc o Balesteina, Fatma Hassona. Yn drasig, diwrnod yn unig ar ôl dewis y ffilm yn Cannes, lladdwyd Fatma mewn ymosodiad awyr ar ei chartref gan Israel. Mae'r golled dorcalonnus hon yn dwysau effaith y ffilm, sy'n cyfuno uniongyrchedd crai â dynoliaeth ddofn.

Put Your Soul on Your Hand and Walk offers an intimate, first-hand perspective of life in Gaza, told through a series of video calls between filmmaker Sepideh Farsi and young Palestinian photojournalist Fatma Hassona. Just a day after the film's selection at Cannes, Fatma was tragically killed in an Israeli airstrike on her home. This heartbreaking loss deepens the film's impact, which combines raw immediacy with profound humanity.

Is This Thing On?

15 TBC

Bradley Cooper | USA | 2025
| tbc'

Chwefror | February 27 – 7.45,
28 – 7.00

Mawrth | March 1 – 7.00, 3 – 7.45,
4 – 7.45 **ST**, 5 – 7.45

Wrth i'w priodas chwalu'n dawel, mae Alex (Will Arnett) yn wynebu canol oed ac ysgariad, gan fynd ati i chwilio am bwrpas newydd ar sîn gomedi Efrog Newydd, tra bod Tess (Laura Dern) yn mynd i'r afael â'r aberthau a wnaeth dros eu teulu. Mae'r ddau yn cael trafferth gyda chyd-rianta, hunaniaeth, ac os yw cariad yn gallu ymddangos ar ffurf newydd.

As their marriage quietly unravels, Alex (Will Arnett) faces middle age and an impending divorce, seeking new purpose in the New York comedy scene, while Tess (Laura Dern) confronts the sacrifices she made for their family. The two wrestle with co-parenting, identity, and whether love can take a new form.

Hoppers


PG TBC

Daniel Chong | USA | 2026 |
tbc'

Mawrth | March 6 – 7.00,
7, 8 – 1.30, 4.15, 7.45, **10** – 7.00,
11 – 7.30, **12** – 7.30 **ST**,
13 – 7.30, **14**, **15** – 12.45, 5.00, 7.15,
17 – 19 – 7.30, 21 – 1.00, **22** – 11.30,
29, **30** – 1.45
Ebrill | April 1, 2 – 1.45,
3 – 10 – 1.15, **12** – 1.30

Beth petai chi'n gallu siarad ag anifeiliaid a deall beth maen nhw'n ei ddweud? Yn *Hoppers*, ffilm nodwedd newydd sbon Disney a Pixar, mae gwyddonwyr wedi darganfod sut i "drosglwyddo" ymwybyddiaeth ddynol i anifeiliaid robotig realistig, gan alluogi pobl i gyfathrebu ag anifeiliaid, fel anifeiliaid! Mae'r antur yn cyflwyno Mabel, sy'n dwlu ar anifeiliaid ac sy'n defnyddio'r dechnoleg newydd glyfar hon i ddechrau datgelu dirgelion byd yr anifeiliaid sydd y tu hwnt i unrhyw beth y gallai fod wedi'i ddychmygu.

What if you could talk to animals and understand what they're saying? In Disney and Pixar's all-new feature film *Hoppers*, scientists have discovered how to "hop" human consciousness into lifelike robotic animals, allowing people to communicate with animals as animals! The adventure introduces Mabel, an animal lover who uses this clever new technology and begins uncovering mysteries within the animal world that are beyond anything she could have imagined.



The Bride!

15 TBC

Maggie Gyllenhaal | USA | 2026 | tbc'

Mawrth | March 6 – 7.45, 7 – 1.00, 4.30, 7.00, 8 – 1.15, 4.30, 7.00, 10 – 7.45 **ST**, 11 – 13 – 6.45, 14, 15 – 1.00, 4.00, 7.45, 17 – 19 – 6.45

Mae Frankenstein unig (Christian Bale) yn teithio i Chicago yn y 1930au i geisio cymorth y meddyg a'r ymchwilydd arloesol, Dr. Euphronius (Annette Bening), er mwyn creu cydymaith iddo'i hun. Mae'r ddau yn adfywio menyw ifanc a lofruddiwyd o'r enw Ida, ac mae'r Bride (Jessie Buckley) yn dod yn fyw. Mae hi cymaint yn fwy na'r hyn a fwriadwyd gan y naill na'r llall, gan danio rhamant fflamgoch, denu sylw'r heddlu a mudiad cymdeithasol gwyllt a radical.

